



**BRITISH WOOL
MARKETING BOARD**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain
Wool House
Roydsdale Way
Euroway Trading Estate
Bradford
BD4 6SE

**Ar gais, mae'r ddogfen hon ar gael yn y fformatau a ganlyn:
Braille, disg, casét sain, print bras, Saesneg ac ieithoedd lleiafrifol.**

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n dangos sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Dyma Gynllun Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain.

Mae'n disgrifio sut y byddwn, os yw'n addas dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, gan roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth ymdrin â materion cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn ymwneud â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gennym i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu Cynhyrchwyr Cofrestredig. O dan Ddeddf Marchnata Gwlân 1950, mae'r ofynnol i Fwrdd Marchnata Gwlân Prydain gofrestru pob cynhyrchwr â phedair neu fwy o ddefaid; ar hyn o bryd mae yna 59,078 o gynhyrchwyr.

Mae gwybodaeth bellach am rychwant a phwrpas cynlluniau Iaith Gymraeg ar gael yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg - www.byig-wlb.org.uk

Cafodd y cynllun hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14 y Ddeddf. Daeth i rym ar 18/03/2011, gan ddisodli'r cynllun a gymeradwywyd ar 16/10/2006.



Cefndir Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain

Cafodd Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain, sy'n cael ei redeg gan ffermwyr, ei sefydlu yn 1950 er mwyn gweithredu system farchnata ganolog ar gyfer gwlân cnu'r DG, gyda'r nod o gael yr enillion net gorau posibl i'w gynhyrchwyr. Dyma'r unig sefydliad yn y byd sy'n casglu, graddio, gwerthu a hyrwyddo gwlân cnu, a'r unig fwrdd nwyddau amaethyddol sydd ar ôl yn y DG.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 11 aelod anweithredol, sy'n cynrychioli 8 ardal wahanol yn y DG ac 1 yng Ngogledd Iwerddon a 2 aelod wedi'u penodi gan y Llywodraeth. Mae yna 2 gyfarwyddwr gweithredol.

Mae'r tîm rheoli'n rhedeg y gweithrediadau o ddydd i ddydd o'r pencadlys yn Bradford, ac mae yna swyddfeydd rhanbarthol bach yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Caiff gwlân pob cynhyrchwr cofrestredig ei raddio yn un o rwydwaith o ganolfannau ledled y DG a Gogledd Iwerddon, ac mae'r canolfannau'n cyfuno gwlân pawb mewn llwythi wedi'u graddio i'w gwerthu mewn ocsiwn.

Prif swyddogaeth y Bwrdd yw casglu a marchnata gwlân gan gynhyrchwyr. Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i gasglu gwlân gan gynhyrchwyr, sef unrhyw ffermwr â mwy na 4 dafad.

Nid yw'r Bwrdd yn derbyn unrhyw gymorth ariannol. Mae'n sefydliad dielw, sy'n rhoi pris y farchnad am eu gwlân i'r cynhyrchwyr ar ôl tynnu allan costau'r Bwrdd.

Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

Bydd ein polisiâu, mentrau a gwasanaethau'n gydnaws â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg a byddant, pryd bynnag y bo modd, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu weithredu polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd sy'n cael eu harwain gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Darparu Gwasanaethau

Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr fod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Fe fyddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Safonau Ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal ac yn cael eu darparu ar yr un pryd.

Gohebiaeth

Fel arfer byddwn yn gwneud fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg fe fyddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Byddwn yn anelu at ateb yr un mor fuan ag y byddwn i lythyrau yn Saesneg.

Pan ydym yn cychwyn gohebiaeth â'r cyhoedd mae'r dogfennau a ganlyn yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod ei bod yn well gan rywun ohebu yn Gymraeg neu Saesneg yn unig:

Dogfen Ethol Cynrychiolydd Sirol i Bwyllgor Rhanbarthol
Hysbysiad cyngor cofrestru
Cyngor ynglŷn â Graddio

Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg unrhyw ohebiaeth ar wahân, fe fyddwn yn gwneud yn siŵr fod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Cyfathrebu dros y Ffôn

Byddwn fel arfer yn gwneud yn siŵr fod y cyhoedd yn gallu siarad yn Gymraeg neu Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.

Os oes rhywun yn ffonio ein llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ac os yw'r sawl sy'n derbyn yr alwad yn methu siarad yr iaith, bydd y derbynnydd yn trosglwyddo'r alwad i gydwethiwr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.

Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r sawl sy'n galw o gael siaradwr Cymraeg i ffonio'n ôl cyn gynted ag y bo modd, neu barhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno'r ymholiad yn Gymraeg mewn llythyr neu neges e-bost.

Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth ffôn, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, fe fyddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbyseb hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i'r staff yn ein swyddfeydd tu allan i Gymru i gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg.

Cysylltiadau Eraill â'r Cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, fe fyddwn yn gwneud yn siŵr fod yr holl agweddau ar ein cyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Gofynnir i atebwyr os ydynt yn dymuno ateb yr arolwg yn Gymraeg neu Saesneg.

Pan fyddwn yn trefnu cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni bai ei bod yn hysbys fod pawb yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd pob gwahoddiad a hysbyseb ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw ym mha iaith y maent yn dymuno siarad.

Byddwn yn hysbysu'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd pan fo cyfleusterau cyfieithu ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.

Byddwn fel arfer yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg - ac yn trefnu bod adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, fe fyddwn yn gwneud yn siŵr fod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol, yn ôl yr angen.

Cyfarfodydd Eraill â'r Cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn darganfod cyn gynted ag y bodd pa iaith sydd orau ganddynt, ac os oes modd, yn gwneud yn siŵr fod aelod cymwys o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn delio â phobl sy'n well ganddynt siarad Cymraeg.

Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd sy'n defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda a chyfarpar tebyg.

Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i'r staff yn ein swyddfeydd tu allan i Gymru i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein Hwyneb Cyhoeddus

Hysbysebu ac Arddangosfeydd

Caiff yr holl ddeunydd arddangosfeydd a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu'n unig yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau Cymraeg bydd hysbysebion yn y Gymraeg yn unig.

Cyhoeddiadau

Byddwn yn defnyddio system sgorio, a gytunir gan y Bwrdd, i ddewis yn wrthrychol unrhyw ddeunydd y dylid ei gyhoeddi ar wahân yn Gymraeg a Saesneg neu mewn dogfennau dwyieithog.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Gwefannau

Mae'r Bwrdd wedi datblygu tudalen groeso Gymraeg, a fydd yn cyfeirio at fanylion cyswllt ar gyfer gweithwyr/cysylltiadau sy'n siarad Cymraeg.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â dylunio gwefannau.

Hunaniaeth Gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein

papurau swyddfa – a phethau megis cardiau busnes, bathodynau adnabod, tocynnau, gwahoddiadau a cherbydau

Arwyddion yng Nghymru

Byddwn fel yn gwneud yn siŵr fod ein holl arwyddion parhaol a dros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael triniaeth gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Byddwn yn glynu wrth hyn pryd bynnag y bo arwyddion yn cael eu gosod am y tro cyntaf, neu bryd bynnag y byddwn yn ailosod arwyddion.

Os yw arwyddion Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar wahân, fe fyddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Recriwtio Staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) sy'n cael eu dosbarthu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos ar wahân yn Gymraeg a Saesneg. Hysbysiadau Cymraeg a osodir mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – un ai mewn un fersiwn dwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n cael eu gosod unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau Newyddion a Chysylltu â'r Cyfryngau

Cyhoeddir datganiadau newyddion yn Gymraeg a Saesneg os yw amser yn caniatáu, neu yn newis iaith y sefydliad neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.

Gweithredu'r Cynllun

Staffio

Mae angen i'r holl weithleoedd sydd â chysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru allu defnyddio digon o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg fel y gall y gweithleoedd hynny ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Gweithredir y gweithdrefnau a ganlyn yn unol â hynny:

Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol neu hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm, neu fe ellir ei gysylltu â gwaith penodol.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau er mwyn darganfod nifer, lefel gallu a lleoliad staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Ar gyfer ein swyddfeydd tu allan i Gymru, fe fyddwn yn chwilio am wybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr swyddi a staff presennol.

Bydd canlyniadau'r ymarferion hyn yn cael eu cymharu er mwyn darganfod ym mha weithleoedd y mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder trwy gyfrwng ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

Recriwtio

Wrth recriwtio staff fe fyddwn yn dilyn yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu trwy ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir dan Staffio uchod.

Pan ystyrir bod siarad Cymraeg yn rhugl yn fanteisiol neu hanfodol, nodir hynny mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi.

Os nad oes modd cael hyd i ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn fanteisiol, anogir y sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.

Gall y bydd ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei benodi i swydd lle ystyrir bod y Gymraeg yn hanfodol, ond lle gellir neilltuo amser i ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, bydd dysgu'r iaith i'r lefel angenrheidiol o gymhwysedd, o fewn cyfnod cytunedig rhesymol, yn amod cyflogaeth.

Pan nad oes siaradwyr Cymraeg cymwys ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol (neu tra bo ymgeisydd di-Gymraeg a benodwyd yn dysgu'r iaith) fe fyddwn yn gwneud trefniadau dros dro i ddarparu gwasanaeth Cymraeg (trwy, er enghraifft, ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg o rywle arall yn y sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Hyfforddiant iaith

Anogir ein staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg – a byddwn yn cynorthwyo'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn talu am yr hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn ystyried yn llawn Safonau TGCh y Bwrdd.

Gweithio trwy Bartneriaeth

Pan ydym yn arweinydd strategol ac ariannol oddi mewn i bartneriaeth, gwnawn yn siŵr fod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth sy'n cael ei harwain gan sefydliad arall, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan ydym yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Trefniadau Mewnol

Mae mesurau'r cynllun hwn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd rheolwyr yn dwyn y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Byddwn yn penodi uwch aelod o'r staff i gydlynu'r gwaith sy'n ofynnol er mwyn gweithredu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Mae cynllun gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad A sydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r cynllun hwn ymhlith ein staff, a'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir ar ein gwefan mewn lle amlwg.

Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r cynllun hwn – ac er mwyn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Gwnawn yn siŵr na fyddwn yn defnyddio ond cyfieithwyr cymwys i'n helpu i weithredu'r cynllun hwn.

Bydd unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'n cael sylw penodol gan y cynllun hwn, yn digwydd mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Monitro

Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn flynyddol ym mis Mehefin, yn amlinellu'r cynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn. Bydd yr adroddiad yn nodi'r canlynol:

- Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg
- Prif Ffrydio'r Gymraeg
- Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith
- Gweinyddu'r Cynllun

Adolygu a Diwygio'r Cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, gall y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu argymhell newidiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau sy'n berthynol i'r swyddogaeth hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac Awgrymiadau ar gyfer Gwelliant.

Dylid cyfeirio cwynion ynglŷn â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant, at yr uwch aelod o'r staff sydd â chyfrifoldeb am y cynllun hwn, i'r cyfeiriad a ganlyn:

Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain
Wool House
Euroway Trading Estate
Bradford
West Yorkshire
BD4 6SE

Neu e-bostio: Sandra.Dennison@britishwool.org.uk

Atodiad A – Y prif dargedau ar gyfer darparu'r cynllun

Targed	Dyddiad cwblhau
Arweiniad i staff sy'n datblygu polisiau, mentrau a gwasanaethau newydd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r angen i ystyried goblygiadau iaith Gymraeg wrth iddynt wneud hynny	Tachwedd 2011
Gosod hysbysiadau yn ein derbynfeydd yng Nghymru i dynnu sylw at y gwasanaethau iaith Gymraeg sydd ar gael	Gorffennaf 2012
Arweiniad i staff er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i ddelio â gohebiaeth iaith Gymraeg ac yn ymwybodol fod yr un targedau'n berthynol i hyn ag yw i ohebiaeth iaith Saesneg	Ionawr 2013
Cymell staff yn ein swyddfeydd yng Nghymru i ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog	Gorffennaf 2012
Arweiniad i gydweithwyr marchnata ynglŷn â'r angen i drefnu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu dwyieithog yng Nghymru	Gorffennaf 2013
Arweiniad i staff sy'n gyfrifol am ddylunio a phrynu arwyddion i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r ymrwymïadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg	Ionawr 2013
Nodi gweithleoedd a swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol	Ionawr 2012
Ymgymryd ag archwiliadau cyfnodol o sgiliau iaith y staff	Ionawr 2012
Darganfod pa aelodau o'r staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg	Mehefin 2013
Arweiniad i staff er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o sut i ddelio â chwynion sy'n berthynol i'r cynllun	Ionawr 2013

Monitro – Adrodd yn flynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn fformat wedi'i gytuno	Mehefin 2011